Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Cymru Greadigol

# Penodi Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

## Dyddiad Cau: 4pm, 3 Hydref 2022

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| **Gwneud Cais** | **3** |
| **Atodiad A: Rôl yr Aelod a fydd yn cynrychioli'r Sector Cerddoriaeth** | **5** |
| **Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cymru Greadigol** | **8** |
| **Atodiad C: Y Broses Ddethol** | **11** |

## Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb ym mhenodiad Bwrdd Cymru Greadigol ar gyfer Aelod i gynrychioli'r Sector Cerddoriaeth. Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion am rôl aelodau, y manyleb person, rôl a chyfrifoldebau Cymru Greadigol ac am y broses ddethol.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais, gan gynnwys eich CV a'ch datganiad personol a chyflwyno'r rhain mewn e-bost at:

CreativeWales@gov.wales erbyn 4pm ddydd Llun 3 Hydref.

**Datganiad Personol**

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad chi at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

**Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen.** Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwnnw.

**CV**

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau cyhoeddus presennol neu flaenorol.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 3 Hydref 2022 |
| Llunio rhestr fer: | w/c 3 Hydref 2022 |
| Cyfweliadau: | w/c 17 Hydref 2022 |

Mae'n bosibl y bydd dyddiadau y rhestr fer a'r cyfweliadau yn newid.

**Datganiad Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn annog amrywiaeth eang o unigolion i wneud cais i fod yn aelodau o gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**
Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac mae'n croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod eu hangen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

**Manylion Cyswllt:**

Am ragor o wybodaeth ynghylch Cymru Greadigol a swyddogaeth y bwrdd, neu eich bod angen unrhyw gymorth I wneud cais ar gyfer y swydd hon, cysylltwch â Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol
Ffôn: 03000 615648/07795 122165
E-bost: Gerwyn.evans@gov.wales

Am ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.gov.wales/publicappointments

**Atodiad A**

# Penodi Aelod Anweithredol i fwrdd Cymru Greadigol i gynrychioli'r sector Cerddoriaeth.

**Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person**

**Rôl a chyfrifoldebau**

Rydym yn chwilio am geisiadau ar gyfer **Aelod** o'r Bwrdd i gynrychioli'r sector Cerddoriaeth a fydd yn gwasanaethu am dair blynedd.

Rydym yn chwilo am ymgeiswyr sydd â:

- phrofiad o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru; a
- gwybodaeth am y problemau sy'n wynebu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ynghyd â phrofiad o fewn y sector cerddoriaeth a syniadau ar gyfer datblygu'r sector.

Mae'r safleoedd hyn yn gyfle cyffrous i fod yn rhan o bennu cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer cefnogi a datblygu y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Rydym am glywed syniadau newydd, cael gwybodaeth newydd am y diwydiant, a chlywed am gyfleoedd newydd o ddatblygu'r sector. Rydym yn gwerthfawrogi cyngor a barn y rhai sydd â phrofiad o'r diwydiant yng Nghymru.

<u>Cydymffurfio a safonau</u>

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd:

- gydymffurfio bob amser gyda Cod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Aelodau Bwrdd, a gyda'r rheolau sy'n gysylltiedig â defnyddio cronfeydd cyhoeddus a gwrthdaro buddiannau;
- beidio â defnyddio gwybodaeth sydd wedi'i gaffael yn eu gwasanaeth i'r cyhoedd i elwa'n bersonol neu er elw gwleidyddol, neu geisio defnyddio'r cyfle o wasanaethu'r cyhoedd i hyrwyddo eu buddiannau preifat neu fuddiannau pobl neu sefydliadau y mae ganddynt berthynas â hwy;
- gydymffurfiol â rheolau Llywodraeth Cymru ar dderbyn anrhegion a lletygarwch, ac apwyntiadau busnes; a
- gweithredu bob amser yn ddidwyll ac er budd Llywodraeth Cymru;
- gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus fel a amlinellir yn y Pwyllgor Safonau Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan):

    - Uniondeb;
    - Anhunanoldeb;
    - Gwrchrychedd;
    - Atebolrwydd;
    - Bod yn agored;
    - Gonestrwydd; ac
    - Arweinyddiaeth

**Cymru Greadigol**

## Manyleb y Person

Rydym am gael pobl fydd yn cynnig safbwynt wahanol, i fod yn ffynhonell syniadau gwahanol ac i ategu sgiliau aelodau eraill y brwdd. Bydd gennym ddiddordeb hefyd i glywed sut y mae ymgeiswyr yn credu y bydd y profiad o fod yn Aelod Anweithredol o fudd iddynt. Rydym yn croesawu ceisiadau o bob cefndir a phrofiad, gan gynnwys y rhai hynny sydd â chefndir yn y sector preifat.

Rydym yn chwilio am aelodau o'r bwrdd sydd â'r sgiliau a'r nodweddion canlynol:

- sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a gwrando da;
- y gallu i gynnig her adeiladol;
- sgiliau dylanwadu a pherswadio da;
- y gallu i weithio yn effeithiol fel rhan o dîm;
- y gallu i feddwl yn strategol;
- gallu dadansoddi cadarn;
- gallu i gynnig atebion creadigol i ddatrys problemau cymhleth;
- gallu i weithio yn wleidyddol ddi-duedd ym mhob achos.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y nodweddion, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

## Meini Prawf Hanfodol

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr all roi tystiolaeth eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- profiad eang o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru ac yn benodol y sector cerddoriaeth;
- gwybodaeth fanwl o'r problemau sy'n wynebu'r sector Cerddoriaeth a diwydiannau creadigol yng Nghymru a syniadau ar gyfer datblygu'r sector; a
- dealltwriaeth o nodweddion datblygu economaidd y llywodraeth / sector cyhoeddus.

Bydd y Bwrdd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddarparu rhaglen sylweddol o newid i gefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Rydym felly yn chwilio am unigolion sydd wedi ymrwymo'n llawn, yn frwdfrydig ac wedi'u hysgogi all arwain Cymru Greadigol drwy yr heriau sy'n wynebu'r sector, ond hefyd i ddefnyddio nifer o'r cyfleodd newydd, er enghraifft y rhai hynny sy'n cael eu creu drwy dechnoleg newydd a phlatfformau digidol. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am bobl sy'n cydnabod pwysigrwydd y cyfleoedd hyn ac sy'n sylweddoli sut i ddefnyddio eu potensial yn llawn.

## Y Gymraeg

Er nad yw'r Bwrdd yn gwasanaethu'r cyhoedd, mae angen sgiliau yn y Gymraeg ar y Bwrdd i adlewyrchu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r sector diwydiannau creadigol Mae gallu yn y Gymraeg yn ddymunol. .

**Prif ffeithiau'r swydd**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Cynhelir y cyfarfodydd yn ardal Caerdydd fel arfer |
| Ymrwymiad Amser: | Oddeutu diwrnod y mis. Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd bob chwarter. |
| Hyd penodiad: | Penodiad cychwynnol o 3 blynedd. |
| Cyflog: | £198 y diwrnod yn ogystal â chostau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill o fewn terfynau rhesymol. |

**Gwrthdaro Buddiannau**

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Fwrdd Cymru Greadigol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl ichi arddel safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus; mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

**Atodiad B**

## Rôl a chyfrifoldebau Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn asiantaeth integredig o fewn Llywodraeth Cymru.

Bu'r diwydiannau creadigol yn un o'r rhannau fu'n tyfu gyflymaf o fewn economi Cymru am bron i ddegawd. Mae'r sector yn gwneud mwy na chreu swyddi a chyfoeth; mae'n cyfrannu at frand cenedlaethol cryf ac yn hyrwyddo Cymru yn y byd. Creadigrwydd ar ffurf teledu, cerddoriaeth, y clefyddydau gweledol a phlatfformau digidol ble yr ydym yn rhannu, rhyngweithio, gweithio a chwarae – gallwn hefyd hyrwyddo cymdeithas fwy cynhwysol.

Mae nifer o swyddi creadigol ymhlith y rhai sydd lleiaf tebygol o gael eu colli i awtomatiaeth yn y dyfodol; pobl greadigol a'u busnesau sydd yna aml yn defnyddio – yn hytrach na chael eu disodli – gan dechnolegau newydd.

Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth mewn meysydd yr ystyriwyd fyddai'n cael yr effaith economaidd orau, sef teledu a dramâu o'r safon uchaf. Mae'r penderfyniad hwn wedi cynnig canlyniadau, gyda Cymru bellach yn cystadlu yn y meysydd hyn, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn yr arian y mae'r busnesau hyn yn ei wario yng Nghymru ar y gadwyn gyflenwi, a'r economi ehangach yng Nghymru. Er enghraifft, yn 2018-19 yn unig, gwariodd y cynyrchiadau ffilm a theledu a gafodd eu gwneud yma dros £55 miliwn ar gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o Gymru. Mae effaith y llwyddiannau hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r diwydiant i bob rhan o'n heconomi; mae lletygarwch, twristiaeth, adeiladu a chludiant pob un ohonynt yn elwa o sector diwydiannau creadigol llwyddiannus.

Fodd bynnag, ers 2015, mae'r twf yn y diwydiant wedi newid y sefyllfa yn sylweddol, ac mae wedi ei gydnabod, er bod y cymorth sy'n cael ei roi gennym yn parhau i fod yn effeithiol, mae is-sectorau eraill o fewn y diwydiannau credigol angen ein cymorth a'n buddsoddiad. Mae angen inni hefyd allu ymateb yn llawer mwy hyblyg i sector sy'n symud yn gyflym ac weithiau sy'n anodd ei ragweld. Mae'r agwedd newydd hon yn cynnwys pwysleisio mwy ar sgiliau a doniau, codi safonau cyflogaeth a ffyrdd mwy hyblyg o gyllido.

Cymru Greadigol yw ein ffordd o wneud hyn, gan gynnig gwasanaeth syml, deinamig ac arloesol i'r sector hwn.

Mae Cymru Greadigol wedi newid dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu'r sector – gan ddangos bywiogrwydd a hyblygrwydd o fewn y farchnad ar un llaw; a dull mwy strategol, proactif a hirdymor ar y llaw arall, gan ddangos ein hymrwymiad i'r diwydiannau creadigol fel sector sy'n arwain yng Nghymru.

Mae Cymru Greadigol yn fwy hygyrch hefyd, gan gydnabod bod y sector diwydiannau creadigol yn bodoli ledled Cymru, ac mae'n croesawu'r synergedd rhwng yr economi a diwylliant a doniau Cymru. Mae'n gweithio ar draws y sector ac yn canolbwyntio mwy ar hyrwyddo ar lawr gwlad, gan flaenoriaethu hyrwyddo diwylliant a doniau o Gymru.

Mae themâu trawsbynciol hefyd yn rhan o ethos sylfaenol y sefydliad, gyda Cymru Greadigol yn cyfrannu at agendâu cydraddoldeb a threchu tlodi ac yn cefnogi

penderfynwyr mwy amrywiol o fewn y bywyd cyhoeddus a phenodiadau cyhoeddus, a hepu pobl i dderbyn swyddi ac i ennill mwy o gyflog.

Er y bydd Cymru Greadigol yn gweithredu o fewn y llywodraeth, mae ei strwythur ar gyfer cyflawni yn debyg i gorff hyd braich; mae ganddo Fwrdd cynghori anweithredol gyda Cadeirydd ac Aelodau allanol yn cael eu recriwtio drwy broses agored.

Er bod Cymru Greadigol yn asiantaeth fewnol, fel is-adran o Lywodraeth Cymru, nid oes ganddo hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i Weinidogion Cymru.  Felly mae'r ffordd y mae ei swyddogion yn trafod yn cael ei reoli'n bennaf gan ofyniad cyffredinol i beidio ag amharu ar neu benderfynu ymlaen llaw ar benderfyniad terfynol Gweinidogion Cymru ar unrhyw fater o fewn eu hawdurdodaeth.  O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan swyddogion yr awdurdod  ymarfer eu swyddogaethau yn gyffredinol ar ran, ac yn enw Gweinidogion Cymru (Egwyddor Carltona).  Fodd bynnag, bydd achosion sy'n cael eu hystyried yn wahanol, yn ddadleuol, yn sensitif yn wleidyddol neu'n debygol o dynnu sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru i'w penderfynu.

Gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, mae Cymru Greadigol, fel rhan o Lywodraeth Cymru, yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i Safonau'r Gymraeg, y ddau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Sifil weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol i wella y ffyrdd o ddatblygu polisïau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl Cymru.

Mae Bwrdd Cymru Greadigol yn anweithredol ac yn gynghorol.  Mae'n gwneud argymhellion i Weinidogion a swyddogion ond nid oes ganddo unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau ohono ei hun.

Nid yw'r gweision sifil sy'n gweithio gyda'r Bwrdd, ac yn derbyn eu cyngor, yn atebol i'r Bwrdd mewn unrhyw ffordd.  Bydd y trywydd atebolrwydd arferol o fewn y gwasanaeth sifil drwy reolwyr llinell i Weinidogion, ac ystyried swyddi y Prif Swyddogion Cyfrifo a'r Swyddogion Ychwanegol, yn berthnasol.

Swyddogaeth y Bwrdd yw i:

- gynnig arweiniad effeithiol, gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- craffu ar safonau cyllid cyhoeddus, gan gadw at egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- craffu ar weithgareddau yr asiantaeth fewnol er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cynnal yn effeithiol ac effeithlon;
- monitro perfformiad gan gynnwys perfformiad ariannol, i sicrhau bod yr asiantaeth fewnol yn bodloni ei nodau, ei amcanion a'i thargedau perfformiad;
- rhoi cyngor a datblygu amcanion a nodau strategol Cymru Greadigol sy'n gyson â'i bwrpas cyffredinol ac o fewn fframwaith polisi ac adnoddau sy'n cael ei benderfynu gan y Gweinidog;
- craffu ar y cynllun busnes a'r gyllideb;
- craffu ar y prosesau busnes a gynlluniwyd yn benodol i fodloni anghenion busnes Cymru Greadigol;

- ystyried a rhoi cyngor ar gysylltiadau â’r diwydiant, rhwydweithio, marchnata a strategaethau eraill sydd eu hangen i gyflawni’r cynllun busnes a chyfeiriad strategol yr asiantaeth fewnol.

Oherwydd natur y busnesau a’r unigolion yn y sector a’r angen am yr hyn sy’n cael ei ystyried fel mathau ansafonol o gefnogaeth, sicrhau bod rheolaethau llywodraethu cywir a rheoli perfformiad yn flaenoriaeth amlwg. Wrth wario arian cyhoeddus, bydd angen trefnu rheolaeth briodol, dulliau o graffu a monitro.

Mae’r Bwrdd yn cynnwys:

- Cadeirydd Anweithredol (allanol)
- Aelodau Anweithredol (hyd at bump)
- Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (Llywodraeth Cymru)
- Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymru Greadigol (Llywodraeth Cymru)

Mae’r Bwrdd yn weithredol ers Gwanwyn 2020.

**Atodiad C**

# Y Broses Ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a bydd hefyd yn cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymru Greadigol a Chadeirydd y Bwrdd Anweithredol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Yr unig ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad fydd yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos eu bod yn bodloni y meini prawf ym manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, byddwn yn ceisio ad-drefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau ym mis Hydref 2022.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Os y byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi fel aelod o Fwrdd Cymru Greadigol, fydd yn cadarnhau telerau y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus ar ôl cael cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am swyddi a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

**Ymholiadau**
Am ymholiadau ynghylch eich cais cysylltwch â Gerwyn.Evans@gov.wales.